## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â bwydo pysgod yn unol â chyfundrefnau bwydo a nodir, rhai **fel mater o drefn** ac **arbenigol**. Mae'n cynnwys cael bwyd, a chynnal a chadw cyfarpar a pheiriannau bwydo er mwyn gallu bwydo yn gywir. Mae'n gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn bwydo pysgod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn ddiogel yn unol â'r gofynion perthnasol iechyd a diogelwch
2. cynnal storfa fwyd lân ar draws y safle
3. bwydo pysgod yn unol â manyleb fwydo a nodir, gan wastraffu cyn lleied â phosibl
4. arsylwi ac adrodd ar ymddygiad bwydo
5. monitro bwyd sydd yn cael ei fwyta a'i wastraffu
6. gosod, graddnodi a chynnal cyfarpar bwydo i sicrhau ei fod mewn cyflwr gweithredol da
7. gwaredu gwastraff yn unol â gweithdrefnau rheoli gwastraff safle
8. darparu gwybodaeth i gadw cofnodion gweithgareddau bwydo yn unol â ***'r*** gofynion cyfreithiol a gofynion y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â bwydo
2. y nodweddion â'r mathau o fwyd sydd yn addas ar gyfer bwydo pysgod yn ystod cyfnodau datblygiad gwahanol
3. y gofynion storio bwyd pysgod yn cynnwys pwysigrwydd rheoli plâu yn effeithiol
4. pwysigrwydd dilyn amserlenni bwydo a nodir a lleihau gwastraff
5. sut i adnabod bwyd o ansawdd gwael â'r problemau y gellir eu hachosi os caiff ei roi i bysgod
6. y mathau gwahanol o systemau bwydo a ddefnyddir ar y safle
7. pam y mae bwydo'n cael ei addasu mewn ymateb i **amodau amgylcheddol**
8. ymddygiad bwydo arferol yn cynnwys arwyddion sydd yn dangos bod pysgod yn llawn
9. sut gall ansawdd dŵr a gollyngiadau solidau mewn daliant gael eu heffeithio gan weithgaredd bwydo
10. sut mae cyfraddau bwydo yn cael eu cyfrifo
11. sut a pham y mae bwydwyr yn cael eu gosod, eu graddnodi a'u cynnal a'u cadw
12. y systemau a ddefnyddir i fonitro'r bwyd sydd yn cael ei fwyta a gwastraff (yn cynnwys ystyried bwyd o ansawdd gwael, bwyd heb ei fwyta a deunydd pecynnu)
13. cydrannau bwydydd a'u rôl yn natblygiad pysgod
14. y ffordd y mae gofynion cwsmeriaid a gofynion ansawdd yn dylanwadu ar gynnwys y bwyd a ddefnyddir
15. sut mae cyfraddau trosi bwyd yn cael eu cyfrifo ar gyfer stoc pysgod, y ffactorau sydd yn effeithio arno a'i bwysigrwydd i'r broses gynhyrchu
16. arwyddocâd ariannol costau bwyd wrth gynhyrchu pysgod sydd yn cael eu ffermio
17. pwysigrwydd hylendid da wrth fwydo pysgod
18. y gofynion cyfreithiol a gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion gweithgareddau bwydo

## Geirfa

**cyfundrefn fwydo fel mater o drefn** – gweithgareddau bwydo arferol

**cyfundrefn fwydo arbenigol** – bwydo i gefnogi gofynion penodol e.e. ymprydio, triniaethau mewn bwyd, darparu lliw, deiet gleisiad, imiwno-gyfnerthwyr

**amodau amgylcheddol –** y tywydd, newidiadau i ansawdd dŵr

Bwydo Pysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; bwyd |